



Rebecca Jones  
Pennaeth Polisi Cynllunio  
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri  
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol  
Penrhyndeudraeth  
Gwynedd  
LL48 6LF

Ein cyf : Our ref : qA1255872

09 Ebrill 2018

Annwyl Mrs Jones,

### **Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Adolygiad 1af (Ffurfer) - Ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws a Gynigiwyd: Ymateb Llywodraeth Cymru**

Diolch am ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar y Newidiadau Ffocws a gynigiwyd i Adolygiad 1af (Ffurfer) Cynllun Datblygu Lleol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Dyma'r Awdurdod cyntaf i gynnal ffurfer ar ei adolygiad yng Nghymru. Rydym yn sylweddoli bod paratoi CDLI a'r dystiolaeth ategol yn dipyn o dasg ac yn cydnabod yr holl waith a wnaed gan eich Awdurdod hyd yma o ran symud y Cynllun yn ei flaen at y cyfnod archwilio ac ymateb yn adeiladol i bryderon yr Arolygwyr.

Mater i'r Arolygydd Cynllunio a benodir fydd penderfynu a yw'r cynllun yn 'gadarn' neu beidio. Mae'r Newidiadau Ffocws wedi'u hystyried yng ngoleuni'r sylwadau a wnaed mewn cysylltiad â'r Cynllun Adnau ar 17 Awst 2017 ac yn unol â'r profion cadernid. Mae'r **Atodiad** amgaeedig yn cynnig ymateb manwl ynghylch a yw'r Rhestr o Newidiadau Ffocws a Gynigir yn bodloni'r hyn a godwyd yn ein sylwadau ar y ddogfen adneuo. Yn ogystal, rydym wedi ystyried y papurau cefndir diwygiedig sy'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad hwn ac wedi gwneud sylwadau ynghylch a ydy'r diweddariadau'n mynd i'r afael â'n sylwadau blaenorol. Mae'r atodiad yn dangos pa rai o'n gwrthwynebiadau sy'n dal i sefyll a pham, ac os gwêl yr Arolygydd yn dda, gellir mynd i'r afael â nhw, eu newid neu eu hesbonio trwy'r gwrandawiadau.

O ran ein sylwadau ar dargedau/hyfywedd tai fforddiadwy, nodwn fod gan yr Arolygydd bryderon tebyg ac mae wedi gofyn yn ei lythyr ar 09 Chwefror 2018 am yr awdurdod i wneud rhagor o waith ar sail hynny. Cewch ein sylwadau ar yr agweddau hyn pan ddaw'r cyfle.

Heb ragfarnu'r archwiliad annibynnol na chwaith pwerau'r Gweinidog i ymyrryd yn ddiweddarach yn y broses, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo i helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol ar hyd proses y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn gywir,



**Mark Newey**  
**Pennaeth y Gangen Cynlluniau**  
**Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**

**Atodiad** Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Adolygiad 1af (Ffurf Fer) Ymgynghoriad ar y Newidiadau Ffocws a Gynigiwyd: Ymateb Llywodraeth Cymru

N.Ff.	Sylwadau Llywodraeth Cymru (LIC)
<b>Pennod 2: Strategaeth Ddatblygu</b>	
<b>NFf06 &amp; NFf34</b>  <u>Yn dal i wrthwynebu</u>	<b>Polisi Strategol C: Y Strategaeth Datblygu Gofodol</b>  Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud sylwadau ar y Cynllun Adnau bod yr ystodau o fewn y polisi hwn yn ei wneud yn fwy dryslyd. Nid yw'n glir pam mae angen ystodau o gwbl o gofio manylder y cynllun bellach o ran y cydrannau tai ym mhob haen anheddiad. Hefyd, mae fframwaith monitro NFf34 yn dweud hefyd bod y pwyntiau cychwyn +/- 20% o'r ystodau hynny. Mae hyn yn ychwanegu at y dryswch a'r amwysedd. Dylai'r fframwaith monitro gyfateb i'r dosbarthiad gofodol yn nhabl 5.7.  Mae'r ffigurau newydd yn y tabl cyflenwad ar gyfer y cydrannau, a ddiweddarwyd gan (NFf16), yn glir o ran ble y cyfeirir datblygiad o fewn yr hierarchaeth aneddiadau, fesul cydran tai. Cefnogir hyn. Fodd bynnag, fel y dywedwyd yn gynharach, carai LIC wybod sut y cafodd y targedau canrannol a'r niferoedd yn y polisi hwn eu cyfrif a beth yw eu perthynas â chydrannau'r cyflenwad gan gynnwys sut y cânt eu gweithredu a'u monitro.
<b>Pennod 3: Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol</b>	
<b>NFf05, 07 &amp; 13</b>  <u>Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr</u>	<b>Paragraffau 1.66, 3.1 a 3.45 - cyfeiriadau at y Cynllun Gwastraff Rhanbarthol</b>  O blaid dileu'r cyfeiriadau at Gynlluniau Gwastraff Rhanbarthol.

<p><b>NFf11</b></p> <p><b>Yn dal i wrthwynebu'n rhannol</b></p>	<p><b><u>Polisi Datblygu 3: Ynni</u></b></p> <p>Beth yw'r 'ystyriaethau cynllunio' yn y Canllawiau Cynllunio Atodol? Dylai'r polisi gynnwys popeth sydd ei angen i allu penderfynu ar gais cynllunio; nid yw'n briodol trosglwyddo'r cyfrifoldeb am feini prawf y polisi i'r CCA. Byddai ychydig o esboniad ar y mater yn fuddiol i sicrhau bod y polisi'n gweithio yn unol â'r bwriad.</p> <p>Beth yw'r 'ystyriaethau' ym mhwynt bwled 2? Â pha ran o'r polisi y mae'n ymwneud? Mae'r polisi'n aneglur yn hyn o beth a byddai esboniad pellach yn ddefnyddiol.</p> <p>Dylai'r awdurdod gynnwys y Tabl a geir yn Atodiad 2 yr Asesiad Ynni Adnewyddadwy (AYA) diwygiedig yn y CDLI. Mae'n nodi'r capasiti gosodedig ar gyfer y cyfnod fesul technoleg i alinio â pholisi cenedlaethol. Dylai'r fframwaith monitro adlewyrchu hynny hefyd. Dylai'r awdurdod edrych ar CDLIau sydd newydd eu mabwysiadau ar y sail hwn cyn y gwrandawiaidau.</p>
<p><b>NFf12</b></p> <p><b><u>Yn dal i wrthwynebu.</u></b></p> <p><b><u>Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr.</u></b></p> <p><b><u>Aneglur</u></b></p>	<p><b><u>Polisi Strategol E: Polisi Diogelu Mwynau</u></b></p> <p>Mae Polisi E1 ond yn diogelu mwynau Categori 1 ar y Map Cynigion o hyd. Mae gwrthwynebiad LIG yn dal i sefyll gan y dylai'r polisi ddiogelu mwynau categorïau 1 a 2, yn unol â llythyr y CPO (14 Tachwedd 2012) - gweler y ddolen i'r Map BGS sy'n dangos yn glir bod Categoriâu 1 a 2 yn cael eu diogelu. Mae angen newid hyn.</p> <p>Mae Polisi E1, maen prawf iii), wedi'i newid i gynnwys yr ymadrodd 'sterileiddio'r adnodd'. Mae hyn yn datrys gwrthwynebiad LIG yn llwyr.</p> <p>Parthau Clustogi - Mae'r cyfeiriadau at barthau clustogi 100m a 200 ym Mharagraff 3.2 (Papur Cefndir 9 - Mwynau, Tachwedd 2017) wedi'u dileu. Fodd bynnag, nid yw'n glir a gawsant eu newid ar y Map Cynigion yn unol â gwrthwynebiad LIC yn y cam Adneuo.</p>
<p><b>NFf14</b></p> <p><b><u>Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr.</u></b></p>	<p><b><u>Polisi Datblygu 4: Gwastraff</u></b></p> <p>Yn cefnogi'r Newid Ffocws.</p>

<p>NFf15</p> <p><u>Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr</u></p>	<p><b>Amcanestyniadau 2014, diwygio para. 5.4</b></p> <p>Yn cefnogi'r diweddariad a'r ystyriaeth o'r amcanestyniadau ar gyfer aelwydydd 2014 yn y fersiwn ddiweddaraf o Bapur Cefndir 7A - Tai (Tachwedd 2017).</p>
<p>NFf16</p>	<p><b><u>Para 5.7 Tabl Cydrannau'r Cyflenwad Tai</u></b></p> <p>Mae LIC yn cefnogi'r tabl diwygiedig ac yn ystyried bod dileu'r geiriau 'yn amodol ar waith pellach' a 'bras' yn gwneud y cynllun yn gliriach ac yn llai amwys.</p>
<p><b>Y Gofyniad a'r Ddarpariaeth Tai</b></p>	
<p>NFf20</p> <p><b>Yn dal i wrthwynebu'n rhannol</b></p>	<p><b><u>Polisi Strategol G: Tai</u></b></p> <p>Roedd LIC wedi gwneud sylw y dylai elfennau craidd y cynllun gael eu cynnwys mewn polisiau ac nid yn y cyfiawnhad rhesymedig. Byddai hynny'n sicrhau bod penderfyniadau cynllunio'n gallu cael eu cysylltu â pholisi ac yn sicrhau bod y cynllun yn cael ei fonitro'n effeithiol. Cefnogir y diwygiadau a gynigir i'r polisi hwn, sydd bellach yn cynnwys cyfeiriad at y gofyniad, y ddarpariaeth a'r gofynion o ran dwysedd. Maen nhw'n gwneud y cynllun yn fwy eglur.</p> <p>Er hynny, mae LIC yn credu bod Polisi G yn bolisi tai fforddiadwy ac y dylai'r awdurdod ei ailenwi yn hynny o beth. Byddai'n fwy priodol cynnwys y diwygiadau a gynigir (NFf20) fel polisi ar wahân a'u cynnwys yn adran 5.4 y Cynllun Adnau. Byddai hynny'n ei wneud yn gliriach ac yn fwy darllenadwy gan y bydd pob cyfiawnhad rhesymedig, tabl ar y cyflenwad/cydrannau tai a dyraniad safleoedd ategol yn seiliedig arno. Gallai'r polisi hefyd gyfeirio at y targed tai fforddiadwy, er enghraifft "<i>darparu ar gyfer 810 o anheddau, o'r rheini y bydd 350 yn fforddiadwy hyd at 2013</i>". Dylid cynnwys y targed tai fforddiadwy yn y polisi ac nid yn y cyfiawnhad rhesymedig.</p> <p>Yn gryno felly, dylai'r awdurdod ystyried trefn a strwythur y bennod tai o safbwynt sut mae'r polisiau tai a thai fforddiadwy a'r cyfiawnhad rhesymedig yn cael eu cyflwyno. Ni fyddai hyn yn newid cynnwys/strategaeth y cynllun, ond byddai'n sicrhau bod elfennau allweddol yn cael eu cynnwys o fewn polisiau priodol, a'r cyfiawnhad rhesymedig sy'n eu cefnogi, mewn ffordd ystyrlon.</p>

<b>Pennod 6: Cefnogi Economi Wledig Gynaliadwy</b>	
<b>NFf21</b>  <u><b>Yn dal i wrthwynebu'n rhannol</b></u>	<b><u>Para 6.5 a Pholisi H: Economi Wledig Gynaliadwy</u></b>  Cefnogir y cyfeiriad ychwanegol at ddiogelu safleoedd cyflogaeth presennol ac mae'n lled-dawelu'n pryderon am y mater; fodd bynnag, nid yw'n glir o ddarllen y newid ffocws beth ydyn nhw a ble maen nhw. Dylid eu rhestru mewn polisi a'u nodi ar y map cynigion. Fel y dywedwyd yn ein sylwadau ar y ddogfen adnau, dylai'r NPA ystyried a fyddai polisi diogelu ar wahân yn gwneud y cynllun yn gliriach o gofio na fyddai llawer o feini prawf o dan y polisi yn gymwys i safleoedd cyflogaeth a ddiogelir.
<b>NFf22</b>  <u><b>Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr</b></u>	<b><u>Para 6.11 - 6.13 a Pholisi 19</u></b>  Mae LIC yn cefnogi'r diwygiadau a gynigir sy'n cynnig hyblygrwydd o safbwynt yr economi wledig, yn unol â pholisi cenedlaethol.
<b>NFf32</b>  <u><b>Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr</b></u>	<b><u>Para 6.11 - 6.13 a Pholisi 19</u></b>  Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r newid ffocws sy'n dileu 'meddiannaeth' ac yn rhoi 'y meddiannydd' yn ei le. Mae'r newid yn mynd i'r afael â'n pryderon yn hyn o beth.
<b>Papur Cefndir 7A (Tachwedd 2017)</b>	
<u><b>Yn dal i wrthwynebu</b></u>	<b><u>Llwybr Dangosol Tai a'r Cyflenwad Tai 5 Mlynedd</u></b>  Cyflwynodd LIC sylwadau yn y cam Adneuo ynghylch y cyflenwad pum mlynedd a'r angen am lwybr dangosol tai i ddangos amseriad, cyfnodedd a hyblygrwydd y cynllun. Mae Atodiad 1 yn dal i fod yn anghywir trwy ddangos mai 810 o unedau yw'r cyfanswm cronol fydd wedi'u cwblhau ar ddiwedd cyfnod y cynllun. Mae hyn yn anghywir - cyfanswm y gofyniad ddylai gael ei ddangos, nid cyfanswm y ddarpariaeth. Am hynny, nid yw'n glir a oes yna gyflenwad 5 mlynedd adeg mabwysiadu'r cynllun neu drwy gyfnod y cynllun. Byddai'n dda felly i'r ACLI edrych ar lwybrau dangosol archwiliadau diweddar cyn y gwrandawriad.  Hefyd, ymddengys fod y graff ategol yn dangos mai cyfanswm y ddarpariaeth yw 810 o unedau. Fodd bynnag, mae'r graff yn dangos nad oes hyblygrwydd o 2022 ymlaen. A yw'r cynllun yn ddigon hyblyg i ddelio ag amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld? Mae LIC wedi gwneud sylwadau hefyd ynghylch y diffyg lwfans ar gyfer safleoedd ar hap mawr. Gallai fod/ddim fod yn help yn hyn o beth.

**Yn dal i wrthwynebu**

**Safleoedd Ar Hap Mawr (Eglurder y Cydrannau Tai)**

Gofynnodd LIC yn y cam Adneuo pan nad oes lwfans ar gyfer safleoedd ar hap mawr yn y cynllun. Nid yw'r esboniad ym mhara 34 y Papur Cefndir 7a diwygiedig yn eglur ac nid yw'n ddigon o gyfiawnhad pam nad oes lwfans ar gyfer safleoedd ar hap mawr yn y cynllun. Mae'r testun yn awgrymu y bu o leiaf 3 safle ar hap mawr ers mabwysiadu'r CDLI na fyddent wedi gallu cael eu rhagweld na'u hadnabod. Mae'r datganiad yn aneglur ac mae angen esboniad trylwyrach. Dyna natur datblygiad ar hap. Mae angen i'r awdurdod esbonio beth yw'r tueddiadau hanesyddol o ran safleoedd ar hap mawr ac ystyried a ddylid eu neilltuo fel rhan annatod o'r cynllun. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ystyried bod potensial na fydd hyblygrwydd yn y cynllun o 2022 ymlaen.

**Yn dal i wrthwynebu'n rhannol**

**Atodiad 5 - Darparu Safleoedd a Neilltuwyd**

Cyflwynodd LIC sylwadau yn ystod y cam Adneuo yn gofyn am eglurhad o'r modd, o ran amseriad, cyfnodedd, costau a mecanweithiau ariannu, y neilltuir safleoedd. Er y cefnogir Cam 5, nid oes wastad gwybodaeth fanwl am gyfnodedd ynddo. Er enghraifft, dywedir am rai safleoedd 'yn debygol iawn o gael ei ddatblygu mewn un wedd'. Beth mae hynny'n olygu? Dylai'r Atodiad gael ei ddiwygio er mwyn dangos gwybodaeth fanylach am gyfnodedd, yn gysylltiedig â'r llwybr dangosol. Dylai'r Atodiad fod yn rhan o'r cynllun ei hun.

**Y gwrthwynebiad wedi'i ddatrys yn llwyr**

**Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr**

Cyflwynodd LIC sylwadau yn y cam Adneuo i ofyn am esboniad o lefel yr angen ac am newid y polisi sy'n seiliedig ar feini prawf er mwyn ei gysoni â'r polisi cenedlaethol. O ran y diweddariadau i'r Papur Cefndir sy'n esbonio nad oes angen mewn Parc Cenedlaethol, mae LIC yn eu cefnogi ac maen nhw'n mynd i'r afael â'n pryderon.

**ATODIAD 26 - Crynodebau Swyddogion ac Ymatebion drafft Swyddogion**

**Yn dal i wrthwynebu**

**Polisi ar Sipsiwn a Theithwyr sy'n seiliedig ar Feini Prawf (Polisi 13)**

**Nff - HEPGORIAD**

O ran y polisi sy'n seiliedig ar feini prawf, mae LIC yn anghytuno â'r sylwadau ar dudalen 29 Dogfen Crynodeb o Ymatebion Swyddogion. Mae'r meini prawf ar gyfer 'dangos tystiolaeth o'r angen' yn dal i fod yn groes i'r polisi cenedlaethol. Disgwylir cyhoeddi Cylchlythyr G&T diwygiedig cyn dechrau'r gwrandawiadau ym mis Gorffennaf

sy'n atgyfnerthu'r safiad hwn.